A PHP Error was encountered

Severity: Warning

Message: DOMDocument::loadXML(): Entity 'ParlHisc' not defined in Entity, line: 7

Filename: controllers/Article.php

Line Number: 117

Backtrace:

File: /opt/rh/httpd24/root/var/www/yba2/application/controllers/Article.php
Line: 117
Function: loadXML

File: /opt/rh/httpd24/root/var/www/yba2/application/controllers/Article.php
Line: 91
Function: xsltTransform

File: /opt/rh/httpd24/root/var/www/yba2/index.php
Line: 315
Function: require_once

A PHP Error was encountered

Severity: Notice

Message: Trying to get property of non-object

Filename: helpers/article_helper.php

Line Number: 303

Backtrace:

File: /opt/rh/httpd24/root/var/www/yba2/application/helpers/article_helper.php
Line: 303
Function: _error_handler

File: /opt/rh/httpd24/root/var/www/yba2/application/controllers/Article.php
Line: 132
Function: transformToXml

File: /opt/rh/httpd24/root/var/www/yba2/application/controllers/Article.php
Line: 91
Function: xsltTransform

File: /opt/rh/httpd24/root/var/www/yba2/index.php
Line: 315
Function: require_once

THOMAS (TEULU), Coed Alun ac Aber, Sir Gaernarfon.

Yn Sir Gaerfyrddin yr oedd gwreiddiau'r teulu, a threiglid eu disgyniad o Lywelyn Foethus. Yn nechrau'r 16eg ganrif pennaeth y teulu ydoedd Syr WILLIAM THOMAS, Llangathen. Dechreuwyd y cysylltiad ag Arfon pan briododd RHYS, mab Syr William, â Sian, merch Syr John Puleston, Caernarfon. Rhys Thomas oedd siryf Sir Gaernarfon yn 1573-4, a siryf Môn 10 mlynedd cyn hynny. Dygwyd ei fab WILLIAM THOMAS (bu farw 1586), i fyny yn llys y dduges Somerset, a chafodd yr un manteision addysg â mab y dduges - trwy hyn daeth yn gyfarwydd â Lladin, Eidaleg, Sbaeneg, a Saesneg; medrai Gymraeg hefyd ond odid. Priododd Elin, ferch William Gruffydd, Caernarfon, un o feibion Syr William Gruffydd o'r Penrhyn. Bu'n siryf Caernarfon, yn 1580-1, yn aelod seneddol dros y sir yn 1584-5, ac mewn gwasanaeth milwrol yn Iwerddon. Yn 1586 yr oedd yn gapten ar 200 o Gymry a aeth gyda Syr Philip Sidney i'r Iseldiroedd ac yn ysgarmes Zutphen yr un flwyddyn lladdwyd Syr Philip a'r capten William Thomas, a bu arwyl hir ar ôl y capten yn Arfon megis y bu ar ôl Sidney yn Lloegr. Gadawodd y capten naw o blant ar ei ôl - y cwbl dan oed. Ymhen 10 mlynedd ailbriododd ei weddw â'r capten Rhisiart Gwyn, Hirdrefaig. Bu ef farw yn 1618 a hithau yn 1628. Daethai maenol Aber i feddiant y teulu ac ag Aber y cysylltir eu henwau rhagllaw.

Gwnaed WILLIAM THOMAS (bu farw 1633), mab y capten, yn farchog ar ddydd coroni Iago I yn 1603, a bu'n siryf Caernarfon yn 1607-8. Trwy ei ymlyniad wrth Syr John Wynn o Wydir daeth i gryn safle o ddylanwad yn y sir am flynyddoedd. Bu farw yn 1633, a dilynwyd ef gan ei fab WILLIAM THOMAS. Enillodd hwn sedd Arfon yn etholiad Tachwedd 1640, a bu'n aelod o'r Senedd Faith hyd oni fwriwyd ef allan gan y gwrthfrenhinwyr oherwydd iddo ymuno â Siarl I yn Rhydychen. Gwnaethai gryn enw iddo'i hun ar bwys rhai areithiau yn y Senedd. Ar ôl yr Adferiad daeth eilwaith yn amlwg ym mywyd y sir. Catrin, ferch yr esgob Richard Parry, oedd ei wraig. Ar ei farwolaeth aeth y stad i ddwylo nai iddo, JOHN, mab ROBERT THOMAS (brawd William Thomas). Ni chynhaliwyd hen fri'r teulu gan yr etifeddion dilynol, ond gwasanaethasant eu bro eu hunain yn deilwng o'u safle. Trwy Robert Thomas aeth y stad i afael JOSEPH THOMAS (bu farw 1708), ac yna i RHYS THOMAS, yr hwn a ddilynwyd gan ei fab WILLIAM THOMAS (siryf Caernarfon, 1746-7); bu farw 1763. Yr etifedd nesaf ydoedd RHYS THOMAS (1746 - 1814), siryf Caernarfon yn 1771. Ar ei ôl daeth RHYS THOMAS ei fab, siryf Caernarfon yn 1831-2. Gan i'r Rhys Thomas olaf hwn (1771 - 1850 farw'n ddi-etifedd, aeth ei stad i ddwylo ei chwaer ELISABETH, priod Syr William Bulkeley Hughes, Plas Coch, Môn, a darfu am y llinach wrywaidd.

Awdur

William Gilbert Williams, (1874 - 1966)

Ffynonellau

Calendar of Wynn (of Gwydir) Papers, 1515–1690, in the National Library of Wales and elsewhere

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 202

E. G. Jones, 'The Caernarvonshire Squires' (traethawd M.A.)

Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon, 1940, 92-3 (T. Richards)

Llawysgrif Mostyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 145

Archifau LlGC: Llanstephan MS 36: The poetical works of Edward ap Raff

Archifau LlGC: Llanstephan MS 49: Flyting poetry, &c.

Archifau LlGC: Llanstephan MS 125: Poetry

Y Cymmrodor, 1948

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804787

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu